HORIZON
NUCLEAR POWER

WYLFA NEWYDD

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

# Wylfa Newydd Project

## 5.1 Executive Summary of the Consultation Report (Welsh language)

PINS Reference Number: EN010007

**Application Reference Number: 5.1**

June 2018

Revision 1.0

Regulation Number: 5(2)(q); Section 37(3)(c) Planning Act 2009

Planning Act 2008
Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

[This page is intentionally blank]

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol o Adroddiad yr Ymgynghoriad ........................ 1
1.1 Cyflwyniad ........................................................................ 1
1.2 Prosiect Wylfa Newydd ............................................................ 1
1.3 Y broses ymgynghori ............................................................... 2
*Trosolwg* ............................................................................ *2*
*Datganiad Ymgynghori Cymunedol* .................................................. *5*
*Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un* ............................................... *6*
*Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau* .............................................. *12*
*Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri* ............................................... *19*
*Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol* ................................................... *25*
*Ymgynghori anffurfiol arall* ......................................................... *31*
1.4 Beth sy'n digwydd nesaf .......................................................... 36
*Ymgysylltu parhaus* .................................................................. *36*

# Rhestr o'r Tablau


Tabl 1-1 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un - Nifer yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad ........ 7

Tabl 1-2 Y Newidiadau i'r Prosiect ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un .. 10

Tabl 1-3 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau - Nifer yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad ........ 13

Tabl 1-4 Y Newidiadau i'r Prosiect ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau 16

Tabl 1-5 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri - Nifer yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad ........ 20

Tabl 1-6 Y Newidiadau i'r Prosiect ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri... 23

Tabl 1-7 Crynodeb o'r sylwadau a wnaed yn yr Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol . 27


# Rhestr o'r Ffigurau


Ffigur 1-1 Parthau ymgynghori ........ 3

Ffigur 1-2 Camau'r ymgynghoriad statudol ........ 5

Ffigur 1-3 Mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ........ 7

Ffigur 1-4 Mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau ........ 13

Ffigur 1-5 Mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri ........ 20

Ffigur 1-6 Mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau ........ 33

# 1 Crynodeb Gweithredol o Adroddiad yr Ymgynghoriad

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi Crynodeb Gweithredol o Adroddiad yr Ymgynghoriad, sy'n rhan o'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) Wylfa Newydd.

1.1.2 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio ar gyfer Gorchmynion Cydsyniad Datblygu. Caiff Adroddiad yr Ymgynghoriad ei gyflwyno fel rhan o'r cais am DCO yn unol ag adran 37(3)(c) o'r Ddeddf a Rheoliad 12 (2) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2009.

1.1.3 Mae Horizon wedi ymgynghori'n helaeth cyn ymgeisio ac wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned leol fel rhan o esblygiad Prosiect Wylfa Newydd. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad yn rhoi manylion y gweithgareddau ymgynghori a gynhaliwyd gan Horizon, yr adborth a gafwyd gan ymgyngoreion ac ymateb Horizon i'r adborth hwnnw.

## 1.2 Prosiect Wylfa Newydd

1.2.1 Mae Horizon yn cynnig adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, sy'n cynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd, y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu a'r Gwaith Galluogi. Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu disgrifio isod. Bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael cydsyniad o dan DCO a bydd y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cael cydsyniad o dan Drwydded Forol. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y naill a'r llall; bydd y Gwaith Morol (gweler isod) yn cael cydsyniad o dan y DCO a'r Drwydded Forol.

1.2.2 Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys y rhannau hynny o Brosiect Wylfa Newydd a fydd yn cael cydsyniad drwy DCO, sef:

**Y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol**

- Yr Orsaf Bŵer: gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, gan gynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau, adeiladau, strwythurau ac offer cefnogol, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a'r Cysylltiad â'r Grid;
- datblygiadau eraill ar y safle: gan gynnwys gwaith tirweddu a phlannu, draeniau, systemau rheoli dŵr wyneb, gwaith mynediad i'r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol, Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffyrdd mewnol y safle, meysydd parcio, gwaith a gweithgareddau adeiladu gan gynnwys compowndiau adeiladu ac ardaloedd parcio dros dro, ardaloedd gosod, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro, ardal dros dro i

wylio’r gwaith adeiladu, dargyfeirio cyfleustodau, ffens y ffin a ffensys adeiladu a chysylltiadau trydan;

- Gwaith Morol sy’n cynnwys:
  - Gwaith Morol Parhaol: y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu’r lan, mannau gollwng draeniau dŵr wyneb, man gollwng carthffrwd dŵr gwastraff (a draeniau cysylltiedig dŵr wyneb a charthffrwd dŵr gwastraff i’r môr), system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a Charthu;
  - Gwaith Morol Dros Dro: argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, mannau gollwng dros dro ac angorfa dros dro i gychod camlas;
  - Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: sy’n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a’r Garej Offer Argyfwng Symudol;

**Datblygiadau Cysylltiedig**

- Campws y Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu (Parcio a Theithio);
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi (Canolfan Logisteg);
- y Newidiadau i Briffordd yr A5025;
- Gwaith i greu a gwella cynefinoedd gwlyptir i wneud iawn am unrhyw effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre’r Gof yn y safleoedd canlynol:
  - Tŷ Du;
  - Cors Gwawr;
  - Cae Canol-dydd

## 1.3 Y broses ymgynghori

### *Trosolwg*

1.3.1 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod yr Ymgeisydd yn ymgynghori â *“phobl sy’n byw yn agos at y tir”* am y cais arfaethedig (Adran 47 (1)).


1.3.2 Mae'r broses ymgynghori wedi cael ei chynnal ar draws tri pharth daearyddol:

- **Parth A** – Ynys Môn, sef yr ardal y mae Prosiect Wylfa Newydd yn fwyaf tebygol o effeithio arni;
- **Parth B** – ardal Gwynedd (Arfon), sy’n cynnwys Bangor a Chaernarfon; a

- **Parth C** – Gogledd Orllewin Cymru, fel y diffinnir yr ardal gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys canolfannau allweddol o ran poblogaeth a busnesau, fel Llandudno a Phorthmadog.

1.3.3 Mae’r Parthau’n cael eu dangos ar y map isod. Roedd natur a dwyster y gweithgareddau ymgynghori ym mhob parth yn gymesur i’r effeithiau amgylcheddol tebygol a lefel debygol y diddordeb ym mhob parth.

**Ffigur 1-1 Parthau ymgynghori**




1.3.4 Mae Safle NPS Wylfa yn Ffigur 1-1 cyfeirio at y safle a nodwyd yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni Niwclear (EN-6) fel safle a allai fod yn addas ar gyfer gorsaf cynhyrchu trydan niwclear newydd. Dyma'r safle lle caiff Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd ei gynnig.

1.3.5 Mae strategaeth Horizon ar gyfer Ymgynghori Cyn Ymgeisio wedi cael ei ddatblygu er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Cynllunio 2008 sy’n nodi’r prosesau ymgynghori statudol ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

1.3.6 O dan ofynion y Ddeddf, mae gan Horizon ddyletswydd i ymgynghori â’r bobl ganlynol:


- ymgyngoreion rhagnodedig (adran 42(1)(a));
- awdurdodau lleol perthnasol (adran 42(1)(b));
- y rheini sydd â diddordeb yn y tir (adran 42(1)(d)); ac
- y gymuned leol (adran 47).

1.3.7 Mae'n rhaid i Horizon ddangos ei fod wedi ystyried yr holl adborth a gafodd yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn unol ag adran 49 o'r Ddeddf. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad yn dangos bod Horizon wedi ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad, yn ôl y prif bynciau a godwyd. Mae rhagor o fanylion am yr adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad ac ymateb Horizon i'r adborth hwn ar gael yn yr atodiadau i Adroddiad yr Ymgynghoriad (edrychwch ar Atodiadau A.8, B.10, C.10 ac E.1).

1.3.8 Mae Horizon wedi cynnal proses ymgynghori cyn ymgeisio sawl cam er mwyn sicrhau bod ymgyngoreion yn cael y cyfle i roi adborth ar adegau priodol yn natblygiad y cynigion. Dyma oedd camau statudol y broses Ymgynghori Cyn Ymgeisio:

- **Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un: Medi – Rhagfyr 2014 -** Roedd y cam hwn o'r broses ymgynghori yn statudol at ddibenion ymgynghoriad â'r gymuned leol yn unig, er mwyn diwallu adran 47 o'r Ddeddf.
- **Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau: Awst – Hydref 2016** - Roedd y cam hwn o'r ymgynghoriad yn statudol at ddibenion ymgynghori ag ymgyngoreion rhagnodedig (adran 42, adran 43 ac adran 44 o'r Ddeddf), y gymuned (adran 47) a chyhoeddusrwydd am y datblygiad arfaethedig (adran 48).
- **Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri: Mai – Mehefin 2017** - Roedd y cam hwn o'r broses ymgynghori yn diwallu'n statudol y gofynion ar gyfer ymgynghori ag ymgyngoreion rhagnodedig (adrannau 42, 43 a 44), y gymuned (adran 47), a chyhoeddusrwydd am y datblygiad arfaethedig (adran 48).
- **Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol: Ionawr – Chwefror 2018** – Roedd hwn yn ymgynghoriad statudol gyda ffocws a oedd yn diwallu'r gofynion ar gyfer ymgynghori ag ymgyngoreion rhagnodedig (adrannau 42, 43 a 44), y gymuned (adran 47), a chyhoeddusrwydd am y datblygiad arfaethedig (adran 48).

**Ffigur 1-2 Camau'r ymgynghoriad statudol**




1.3.9 Cafodd yr holl ymatebion a gafwyd yn ystod y camau Ymgynghori Cyn Ymgeisio a restrir uchod eu hadolygu fel rhan o ymarfer codio a dadansoddi iteraidd er mwyn canfod natur y sylwadau, ac er mwyn gallu ystyried pob mater mewn perthynas â'r cynigion yn effeithiol. Cafodd yr adborth i'r ymgynghoriad wedyn ei adolygu gan y timau technegol a oedd yn berthnasol i bob mater a phwnc. Cafodd yr holl adborth i'r ymgynghoriad ei ystyried gan Horizon, ac mewn rhai achosion, mae'r adborth wedi dylanwadu ar newidiadau i'r Prosiect.

### *Datganiad Ymgynghori Cymunedol*

1.3.10 Roedd Horizon wedi paratoi Datganiad o Ymgynghori Cymunedol, drwy ymgynghori â Chyngor Sir Ynys Môn fel sy'n ofynnol dan Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008. Cafodd y Datganiadau o Ymgynghori Cymunedol eu cyhoeddi cyn Camau Un i Dri o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio. Cafodd y Datganiadau o Ymgynghori Cymunedol ar gyfer Cam Dau a Cham Tri eu hadolygu ar sail y profiad a enillwyd a'r adborth a gafwyd yn ystod y Cam blaenorol. Cafodd adborth gan y Swyddogion Cynnwys y Gymuned ei ddefnyddio i fireinio'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ar Gam Tri. Ym mhob achos roedd y Datganiadau o Ymgynghori Cymunedol yn disgrifio sut roedd Horizon yn cynnig ymgynghori â'r gymuned leol am y Prosiect a chawsant eu rhoi mewn llyfrgelloedd lleol yn agos at y Prosiect. Cafodd hysbysiad a oedd yn egluro sut roedd modd cael gafael ar y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ei gyhoeddi mewn papurau newydd lleol. Mae'r hysbysiadau Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ar gyfer Camau Un i Dri wedi'u cynnwys yn atodiadau A.3, B.4 a C.4. Mae'r Datganiadau o Ymgynghori Cymunedol a gyhoeddwyd ar gyfer Camau Un i Dri wedi'u cynnwys yn atodiadau A.4, B.5 a C.5.

1.3.11 Cafodd Datganiad o Ymgynghori Cymunedol Cam Tri ei ddefnyddio fel sail ar gyfer yr Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol yn ystod mis Ionawr 2018. Ymgynghorwyd â Chyngor Sir Ynys Môn am y dull gweithredu hwn ac mae'r ohebiaeth berthnasol yn atodiad E.1.

### *Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un*

1.3.12 Roedd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ar Brosiect Wylfa Newydd yn canolbwyntio ar gyflwyno'r cynigion cychwynnol ar gyfer Safle'r Orsaf Bŵer, a'r datblygiadau cysylltiedig (ar yr adeg honno nid oedd cynnig i gynnwys y datblygiadau cysylltiedig yn y cais am DCO), gan gynnwys dewisiadau ar gyfer gwella'r ffordd ac ardal chwilio eang er mwyn dod o hyd i leoliad ar gyfer Llety Gweithwyr Dros Dro,

1.3.13 Cafodd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ei gynnal dros 10 wythnos, rhwng 29 Medi 2014 a 8 Rhagfyr 2014. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad yn datgan mai'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adborth oedd 8 Rhagfyr 2014.

1.3.14 Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal yn unol ag adran 47 o'r Ddeddf. Roedd yn dilyn y dull gweithredu a nodwyd yn y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol a gyhoeddwyd yn 2014.


1.3.15 Nid oedd cam cyntaf yr ymgynghoriad yn cynnwys ymgynghoriad yn llawn yn unol ag adran 42 na 48 o Ddeddf Cynllunio 2008. Y rheswm am hyn oedd bod y rhestr o ymgyngoreion rhagnodedig, sef y bobl a oedd â diddordeb yn y tir (adran 44 o Ddeddf Cynllunio 2008), wrthi'n cael ei chadarnhau ar yr adeg honno, ond ystyriwyd ei bod hi'n bwysig ymgynghori'n gynnar cyn canfod yr holl ymgyngoreion rhagnodedig. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol ag adran 42 ac adran 48 o Ddeddf Cynllunio 2008 wedyn yng Nghamau 2 a 3 yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio.

1.3.16 Cafodd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ei hyrwyddo i gymunedau lleol. Cafodd hysbysiad ei bostio i oddeutu 33,000 o aelwydydd ar Ynys Môn, dros yr holl ynys. Ar ben hynny, anfonwyd llythyr at randdeiliaid.

### Trosolwg o'r adborth i'r ymgynghoriad

1.3.17 Cafwyd 424 o ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un. Mae'r graff canlynol yn dangos y dadansoddiad o'r mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

**Ffigur 1-3 Mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un**




1.3.18 Roedd ymgyngoreion wedi darparu sylwadau mewn ymateb i'r 14 cwestiwn ar y ffurflenni adborth, ac roedd rhai wedi cyflwyno llythyrau neu negeseuon e-bost. Mae Tabl 1-1 yn dangos nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob un o'r cwestiynau. Dylid nodi nad oedd rhai o'r ymatebwyr wedi defnyddio'r ffurflen wrth ymateb, neu eu bod wedi gadael ambell gwestiwn yn wag, felly nid ydy cyfanswm nifer yr ymatebwyr i bob cwestiwn yn cyfateb i gyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

**Tabl 1-1 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un - Nifer yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad**

| Cwestiwn ar y ffurflen adborth | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol ar y Prosiect? | 237 |
| Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y ffordd mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal? | 139 |
| Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a gyflwynwyd gan Horizon? | 125 |
| Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion datblygu arfordirol Horizon ym Mhorth-y-pistyll a Thrwyn Wylfa, sy'n ymwneud â'r system dŵr oeri (gan gynnwys y morgloddiau) a'r Cyfleuster Dadlwytho Morol? | 121 |

| Cwestiwn ar y ffurflen adborth | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig tirweddu dangosol Horizon? | 123 |
| Cwestiwn 6: A ydych chi'n meddwl y dylid dylunio adeiladau'r Orsaf Bŵer i weddu i'r dirwedd neu a ddylen nhw fod yn nodwedd bensaernïol amlwg yn y dirwedd, neu a oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch hyn? | 134 |
| Cwestiwn 7: Oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â sgiliau a hyfforddiant a hybu cyflogaeth leol a rhanbarthol? | 132 |
| Cwestiwn 8: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ymgysylltiad Horizon â'r gadwyn gyflenwi a chynigion ar gyfer prynu gan fusnesau a chyflenwyr lleol a rhanbarthol? | 122 |
| Cwestiwn 9: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar egwyddorion Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig drafft Horizon? | 125 |
| Cwestiwn 10: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion trafnidiaeth môr Horizon? | 112 |
| Cwestiwn 11: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion trafnidiaeth ffyrdd Horizon? | 116 |
| Cwestiwn 12: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr ardal chwilio fawr neu awgrymiadau ar gyfer safleoedd gallai Horizon eu datblygu ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio, canolfannau logisteg neu lety gweithwyr dros dro? | 266 |
| Cwestiwn 13: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer manteision tymor hir neu fanteision i'r dyfodol neu gyfleusterau cymunedol? | 167 |
| Cwestiwn 14: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ar gynigion Prosiect Horizon? | 118 |

### *Crynodeb o'r prif themâu o'r adborth i'r ymgynghoriad Cam Un*

1.3.19 Gofynnodd ymgyngoreion am ragor o wybodaeth am leoliad, maint a nodweddion gweithredol y datblygiadau cysylltiedig, gan gynnwys y Llety Gweithwyr Dros Dro a'r tai, y canolfannau logisteg a'r dewisiadau parcio a theithio.

1.3.20 Roedd cefnogaeth tuag at y Cyfleuster Dadlwytho Morol arfaethedig, a sylwadau ar gynigion ar gyfer y morglawdd.

1.3.21 Roedd sicrhau manteision cymunedol tymor-byr a parhaol yn deillio o Brosiect Wylfa Newydd yn amlwg drwy'r holl sylwadau i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag,

roedd yr awgrymiadau ynghylch manteision cymunedol yn eang iawn, heb lawer iawn o gonsensws ynghylch y math o fanteision cymunedol y dylid eu darparu.

1.3.22 Roedd sylwadau ar y broses ymgynghori yn cynnwys ceisiadau am ragor o ymgynghori a gwybodaeth. Roedd rhai ymgyngoreion cymunedol wedi mynegi pryder ynghylch cymhlethdod y dogfennau ymgynghori.

1.3.23 Cafwyd nifer o sylwadau mewn ymateb i'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion allweddol canlynol: gwybodaeth yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol; cwmpas yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol; llygredd sŵn, aer a golau; ac awgrymiadau ar gyfer mesurau lliniaru amgylcheddol.

1.3.24 Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer trafnidiaeth aml-foddol a diddordeb yng nghwmpas y Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig arfaethedig gan ymgyngoreion.

1.3.25 Cafwyd sylwadau am y gwaith tirweddu y byddai ei angen i fynd i'r afael â'r effeithiau gweledol ac o ran sŵn ar yr ardal o gwmpas Safle'r Orsaf Bŵer, yn enwedig yr angen i leihau'r ymyrraeth weledol; gwarchod golygfeydd o'r môr a'r mannau ar lwybr yr arfordir sy'n cynnig golygfeydd; twmpathau; a'r angen am ragor o wybodaeth ynghylch cynigion tirweddu.

1.3.26 Roedd cefnogaeth gyffredinol am yr angen i wella'r ffyrdd a'r priffyrdd. Fodd bynnag, codwyd pryder ynghylch diogelwch a thagfeydd ar y ffyrdd ar hyn o bryd a chyflwynwyd rhagor o awgrymiadau ar gyfer cynigion ffordd.

1.3.27 Cafodd nifer o ymatebion eu gwneud ynghylch yr angen am gyflogaeth sgiliau uwch â thâl da ar Ynys Môn, a chafwyd gwerthfawrogiad y gall Prosiect Wylfa Newydd ddarparu'r cyfle hwn. Roedd ymatebion yn awgrymu bod angen i Horizon fuddsoddi mewn rhaglenni hyfforddi i sicrhau bod y gweithlu presennol ar gael i gwrdd â gofynion rhaglen y Prosiect.

1.3.28 Roedd yr ymatebion yn gyson o ran yr angen i ddefnyddio cyflenwyr lleol a busnesau sy'n darparu gwasanaethau lleol a mynegwyd pryder yn gyffredinol ynghylch posibilrwydd dadleoli yn y farchnad lafur leol.

1.3.29 Roedd yr adborth i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon cyffredinol ynghylch effeithiau niweidiol ar dwristiaeth oherwydd y canfyddiadau o Ynys Môn a'r newid i'r dirwedd.

1.3.30 Nodwyd yr angen i gefnogi ac amddiffyn yr iaith Gymraeg a'i diwylliant drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad yng Ngham Un. Roedd nifer o'r ymgyngoreion wedi codi pryderon ynghylch mewnfudiad y gweithlu adeiladu a'r effeithiau ar y Gymraeg.

### Newidiadau i Brosiect Wylfa Newydd ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un

1.3.31 Cafodd nifer o newidiadau eu gwneud i'r Prosiect ar ôl i Horizon ystyried yr adborth i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o elfennau gan gynnwys: adborth i'r ymgynghoriad, yr Asesiad Dyluniad Generig, proses yr asesiad o'r effaith amgylcheddol ac

ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol a chyngor gan arbenigwyr. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys newidiadau i ddyluniad y datblygiad, lliniaru'r prosiect a'r dull gweithredu o ran deunyddiau ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu crynhoi yn y tabl isod[1].

1.3.32 Roedd y newidiadau a ddisgrifiwyd yn rhan o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau. Mae Atodiad A.8 o Adroddiad yr Ymgynghoriad yn nodi'r materion a'r sylwadau a godwyd gan yr Ymgyngoreion i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ac ymateb Horizon iddynt.

**Tabl 1-2 Y Newidiadau i'r Prosiect ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un**

| Cydran o'r Prosiect | Newid i'r Prosiect |
|---|---|
| Gorsaf Bŵer | Newidiadau i lefel y tir ar gyfer Unedau 1 a 2 a chyflwyno terasu ar gyfer lefelau'r tir ar draws Safle'r Orsaf Bŵer. |
| | Datblygu cynigion ar gyfer strategaeth gwastraff integredig, ar gyfer gwastraff ymbelydrol a chonfensiynol, gan gynnwys eglurder ynghylch y cyfleusterau y byddai eu hangen yn yr Orsaf Bŵer. |
| | Trefniadau parodrwydd am argyfwng a nodi'r lleoliadau a oedd yn cael eu ffafrio ar gyfer cyfleusterau penodol oddi ar safle'r orsaf bŵer. |
| Cwmpas Paratoi a Chlirio'r Safle | Addasiadau a rhai gostyngiadau yn nwysedd a graddfa ddaearyddol y gweithgareddau adeiladu ar gamau cynnar o'r rhaglen, drwy gyflwyno dull gweithredu dau gam – yn rhannol cyn dyfarnu'r DCO ac yn rhannol wedyn. |
| Y rhaglen adeiladu a nifer y gweithwyr | Diffiniad pellach o'r rhaglen adeiladu a niferoedd y gweithwyr adeiladu. Arweiniodd hyn at newidiadau i'r niferoedd a nodwyd yn yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un. |
| Cynllun Rheoli Amgylcheddol a Thirwedd | Datblygu'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol a Thirwedd yn iteraidd gan gynnwys rhagor o fanylion ar yr amserlen adeiladu a'r dull gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y twmpathau ar gyfer sgrinio'n weledol a rhag sŵn a phlannu er mwyn gwella'r dirwedd a'r edrychiad gweledol. |
| Ardal Datblygu Wylfa Newydd | Mireinio'r diffiniad o ffin Ardal Datblygu Wylfa Newydd er mwyn adlewyrchu datblygu'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol a Thirwedd, methodolegau adeiladu arfaethedig, cynllun y Cyfleuster Dadlwytho Morol a chynllun Safle'r Orsaf Bŵer. Y prif addasiadau oedd ymgorffori gweithgareddau adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol disgwyliedig a mireinio'r aliniad o |

[1] Dylid nodi bod y newidiadau hyn rhwng Cam Un a Cham Dau yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ac nid ydy'r rhain bob amser yn adlewyrchu'r Prosiect fel sy'n cael ei gynnig gan y cais am DCO.

| Cydran o’r Prosiect | Newid i’r Prosiect |
|---|---|
| | amgylch y gwaith arfaethedig a oedd yn ymwneud â’r strwythur gollwng dŵr oeri ac yn agos at Erddi Cestyll. |
| Llwybr Arfordir Cymru a’r Trywydd Copr | Cyflwyno dewis a allai ddiwygio aliniadau dros dro a pharhaol er mwyn dod â defnyddwyr yn nes at yr arfordir.<br>Rhoddwyd ystyriaeth fanwl bellach i aliniad newydd y Trywydd Copr oherwydd bod angen cau Ffordd Cemlyn. Nodi dewisiadau defnyddio’r A5025, rhwydwaith mewnol o lwybrau yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd y gellid eu creu fel rhan o’r Cynllun Rheoli Amgylcheddol a Thirwedd a chynnwys darpariaeth beicio yn nyluniad y gwelliannau i Ffordd Nanner. |
| Strategaeth Swyddi a Sgiliau | Eglurder ar y mesurau a oedd yn cael eu cynnig i fuddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau, gan ganolbwyntio ar ddarparwyr hyfforddiant sydd eisoes ar waith yn y rhanbarth a darpariaeth newydd yn gysylltiedig â Choleg Menai er mwyn ategu rhaglenni hyfforddiant penodol Horizon. |
| | Datblygu dyheadau a disgwyliadau Horizon mewn perthynas â buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu sgiliau a gyflawnir drwy Menter Newydd a’r gadwyn gyflenwi. |
| Strategaeth llety gweithwyr adeiladu | Nodi rhestr fer o safleoedd sy’n cael eu ffafrio a safleoedd amgen ar gyfer Llety Gweithwyr Dros Dro.<br>Y cynnig am Borth Rheoli Llety Gweithwyr (sy’n cael ei alw yn Strategaeth Rheoli Gweithlu erbyn hyn (Cyfeirnod Dogfen y Cais: 8.5)), gan gynnwys mecanweithiau i helpu i fonitro ac wedyn rheoli’r cyflenwad o bob sector ac effeithiau posibl a fydd yn deillio o lety gweithwyr adeiladu.<br>Ymgysylltu â swyddogion yng Nghyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid eraill i ddod o hyd i gyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwahanol fathau o stoc newydd. |
| Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig | Adolygu egwyddorion y Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig ac ailddrafftio ei amcanion. |
| Strategaeth manteision cymunedol | Dealltwriaeth bod angen mwy o eglurder ynghylch manteision cymunedol a chafodd hyn sylw yn y deunyddiau ymgynghori.<br>Cytundeb ynghylch dull gweithredu a dealltwriaeth gyffredinol rhwng Horizon a swyddogion yng Nghyngor Sir Ynys Môn ynghylch y diffiniad priodol o fanteision cymunedol. Mwy o eglurder ynghylch categoreiddio gwahanol fathau o fanteision a'r enghreifftiau penodol a gynigir fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau. |

### *Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau*

1.3.33 Roedd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau yn canolbwyntio ar ddatblygiadau pellach ers yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ynghylch Safle’r Orsaf Bŵer a’r Datblygiadau Cysylltiedig fel safleoedd posibl ar gyfer llety gweithwyr dros dro, cyfleuster parcio a theithio a chanolfan logisteg.

1.3.34 Fel rhan o’r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau, roedd Horizon hefyd wedi ymgynghori ar bob un o gydrannau'r Prosiect a oedd yn gofyn am ganiatâd cynllunio o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990). Adeg yr ymgynghoriad, roedd yn rhaid i Horizon gyflwyno llawer o geisiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer datblygiadau cysylltiedig gan nad oedd y rhain wedi cael eu cynnwys yng nghwmpas y cais am DCO. Roedd y datblygiadau cysylltiedig yn cynnwys Llety Gweithwyr Dros Dro, cyfleusterau parcio a theithio a chanolfan logisteg.

1.3.35 Ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau a’r newid yn y gyfraith o dan Ddeddf Cymru 2017, penderfynwyd y byddai’r rhan fwyaf o'r elfennau hyn o’r datblygiadau cysylltiedig yn cael eu cynnwys yn y cais am DCO.

1.3.36 Anfonwyd llythyr at yr Arolygiaeth Gynllunio ar 31 Awst 2016 i roi gwybod i’r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 46 o'r Ddeddf am y prosiect er mwyn cyd-daro â dechrau’r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau.

1.3.37 Roedd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau yn cydymffurfio ag adrannau 42, 47 a 48 o’r Ddeddf. Anfonwyd llythyr at yr ymgyngoreion rhagnodedig, yr awdurdod lleol perthnasol a’r rheini a oedd â diddordeb yn y tir.

1.3.38 Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu er mwyn diwallu gofynion adran 47 o’r Ddeddf a chafodd ei gynnal yn unol â’r Datganiad diwygiedig o Ymgynghori Cymunedol. Yn yr un modd â'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un, anfonwyd cylchlythyr at oddeutu 33,000 o aelwydydd ar Ynys Môn yn rhoi manylion am y digwyddiadau ymgynghori a chyfleoedd i’r gymuned gymryd rhan.


1.3.39 Cafodd yr hysbysiad cyhoeddusrwydd adran 48 ei gyhoeddi’n ffurfiol fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau. Mae mwy o fanylion am y broses ymgynghori o ran y gofynion statudol ar gael ym Mhennod 3 Adroddiad yr Ymgynghoriad.

1.3.40 Cafodd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau ei gynnal dros 8 wythnos, rhwng 31 Awst a 25 Hydref 2016. Cafodd yr ymatebion i’r ymgynghoriad eu derbyn tan 16 Tachwedd 2016.

### Trosolwg o’r adborth i’r ymgynghoriad

1.3.41 Cafwyd 228 o ymatebion i’r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau. Mae’r graff canlynol yn dangos y dadansoddiad o’r ymatebion a sut cawsant eu cyflwyno yn ystod yr ymgynghoriad.

**Ffigur 1-4 Mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau**




1.3.42 Mae Tabl 1-3 yn dangos nifer y sylwadau a gafwyd gan y 228 o ymatebwyr i bob un o’r cwestiynau.

**Tabl 1-3 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau - Nifer yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad**

| Cwestiwn ar y ffurflen adborth | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| C1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol am Brosiect Wylfa Newydd? | 207 |
| C2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol? | 47 |
| C3: Gan ystyried y wybodaeth ynghylch ein Datblygiadau Cysylltiedig, Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a Llety Gweithwyr Adeiladu, oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar:<br>Sut gallwn ni wella’r cynlluniau sy'n cael eu ffafrio, gan gynnwys pethau fel y ffordd mae’r adeiladau wedi'u gosod allan a’r llefydd parcio?<br>Sut gallwn ni wella ymddangosiad allanol yr adeiladau, y gwaith tirweddu a'r ffiniau?<br>Y gwaddol fydd yn cael ei adael ar ôl i bob safle?<br>C3a. Kingsland/Cae Glas | 33 |
| C3b. Rhosgoch | 62 |

| Cwestiwn ar y ffurflen adborth | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| C3c. Amlwch, wrth ymyl Fferm Madyn i’r dwyrain a’r gorllewin o’r B5111 | 55 |
| C3d. Fferm Madyn (cartrefi parhaol) | 51 |
| C3e. Dalar Hir | 25 |
| C3f. Parc Cybi | 22 |
| C3g. Llety Gweithwyr Adeiladu ar y Safle | 28 |
| C3h. Garej Offer Argyfwng Symudol | 20 |
| C3i. Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen (AECC)/Labordy Arolygon Amgylcheddol (ESL) | 26 |
| C4: Gan ein bod wedi llunio cynigion manylach erbyn hyn ar gyfer Rhosgoch ac Amlwch (wrth ymyl Fferm Madyn, i’r dwyrain a’r gorllewin o'r B5111), rydym yn croesawu eich safbwyntiau am y dewis o safleoedd, ynghyd â’r rhesymau drostynt/ | 60 |
| C5: Oes gennych chi unrhyw safbwyntiau am y llwybrau bysiau a’r mannau codi gweithwyr? | 40 |
| C6: Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau penodol y gallwn eu hystyried i wneud yn siŵr bod cynifer o bobl leol â phosibl yn manteisio ar y cyfleoedd hyn i gael swyddi ac i ddatblygu eu sgiliau? | 58 |
| C7: Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau penodol ynghylch y mesurau rydym wedi’u dynodi i sicrhau’r budd mwyaf posibl i gymunedau sy'n siarad Cymraeg, neu iaith a diwylliant Cymru, ac i leihau’r effeithiau negyddol? | 55 |
| C8: A fyddech cystal â dweud pa fudd cadarnhaol a risgiau posibl i’ch lles y byddech yn eu disgwyl yn sgil y Prosiect? Dywedwch wrthym sut gallai'r rhain effeithio ar eich safbwyntiau cyffredinol am y Prosiect. | 74 |
| C9: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth am faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ar Ynys Môn, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer mesurau a fyddai’n helpu i leihau’r effeithiau, a allai ein helpu mewn gwaith pellach ar yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb? | 28 |
| C10: Oes gennych chi sylwadau am ein cynigion ar gyfer gwella manteision neu leihau effeithiau negyddol y Prosiect neu awgrymiadau am | 62 |

| Cwestiwn ar y ffurflen adborth | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| bethau y dylem eu hystyried i ddatblygu ein cynigion ymhellach? | |
| C11: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y newidiadau rydym wedi'u gwneud i wella'r Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol, neu'r cynigion hyn yn gyffredinol? | 30 |

***Crynodeb o'r prif themâu o'r adborth i'r ymgynghoriad Cam Dau***

1.3.43 Mynegodd rhai o'r ymgyngoreion eu cefnogaeth tuag at Brosiect Wylfa Newydd, ac roedd eraill yn aml wedi mynegi eu cefnogaeth gyda chafeatau, er enghraifft gan nodi'r materion a allai alw am fesurau lliniaru. Rhoddodd rhai rhanddeiliaid resymau am eu cefnogaeth fel y manteision economaidd i Ynys Môn ac i Ogledd Cymru o ganlyniad i'r gyflogaeth a fydd yn cael ei chreu.

1.3.44 Roedd y gwrthwynebiad i'r Prosiect yn canolbwyntio ar effeithiau lleol fel yr effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd lleol yn ystod y cam adeiladu a lleoliad y safle parcio a theithio arfaethedig. Roedd pryderon hefyd ynghylch sut byddai gwastraff ymbelydrol yn cael ei storio a pha mor hir y byddai'n rhaid i'r gwastraff aros ar y safle.

1.3.45 Roedd rhai o'r ymgyngoreion yn teimlo bod angen rhagor o fanylion am y cynigion yng Ngham Dau, a dywedodd eraill fod gormod o wybodaeth dechnegol o ran y manylion a faint o wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd ymgyngoreion technegol yn feirniadol bod angen mwy o dystiolaeth i gefnogi'r hawliadau a'r tybiaethau a oedd yn cael eu gwneud gan Horizon.

1.3.46 Un maes mawr o ddiddordeb oedd y safleoedd arfaethedig ar gyfer y Llety Gweithwyr Dros Dro. Roedd cefnogaeth a gwrthwynebiad i'r safleoedd yn gytbwys. Roedd rhai ymgyngoreion o'r farn y dylid darparu llety i'r gweithwyr mewn un lleoliad yn agos ar yr Orsaf Bŵer, ac roedd eraill yn ffafrio strategaeth lle byddent yn fwy ar wasgar a allai gynnig mwy o fanteision o ran tai/yr economi i gymunedau yn y dyfodol.

1.3.47 Roedd yr angen i ddiogelu'r Gymraeg a'i diwylliant yn fater cyffredin. Roedd nifer o'r sylwadau'n ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o ganlyniad i fewnlif o weithwyr dros dro a'u teuluoedd yn ystod y cam adeiladu. Roedd ymgyngoreion eraill o'r farn y byddai'r prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd y byddai rhagor o bobl ifanc yn gallu aros yn yr ardal a manteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth; hefyd, posibilrwydd denu siaradwyr Cymraeg yn ôl i'r ardal.

1.3.48 Roedd rhai materion ynghylch cymhlethdod y trefniadau cydsynio gwahanol a sut roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd.

1.3.49 Roedd rhai ymgyngoreion yn erbyn pŵer niwclear mewn egwyddor ac o'r farn y dylid hyrwyddo ynni adnewyddadwy yn lle oherwydd yr honiad ei fod yn lanach, yn rhatach ac yn fwy hyblyg na phŵer niwclear.

1.3.50 Cafodd y broses ymgynghori ei beirniadu gan rai ac yn benodol roeddent yn meddwl bod yr amserlen i ymateb i faint o wybodaeth a oedd yn cael ei

chyflwyno yn rhy fyr. Roedd rhai ymgyngoreion cymunedol yn amheus y byddai eu safbwyntiau'n cael eu hystyried wrth wneud y penderfyniad. Roedd ymgyngoreion eraill yn gadarnhaol am y broses ymgynghori a'u gallu i ddysgu am y Prosiect a chymryd rhan yn y broses.

### Newidiadau i Brosiect Wylfa Newydd ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau

1.3.51 Cafodd newidiadau eu gwneud i'r Prosiect ar ôl i Horizon ystyried yr adborth i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau a rhagor o asesiadau technegol a ddefnyddiwyd i leihau nifer y dewisiadau posibl, yn enwedig mewn perthynas â'r Cyfleusterau Oddi ar y Safle a'r Datblygiadau Cysylltiedig a datblygu'r cynigion lliniaru ymhellach. Cafodd rhagor o newidiadau dylunio technegol eu gwneud hefyd er mwyn ymateb i'r broses Asesiad Dyluniad Generig. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu crynhoi yn y tabl isod[2]. Cafodd y newidiadau hyn eu cyflwyno fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri.

**Tabl 1-4 Y Newidiadau i'r Prosiect ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau**

| Cydran o'r Prosiect | Newid i'r Prosiect |
|---|---|
| Morol (gan gynnwys y Cyfleuster Dadlwytho Morol) a bioamrywiaeth | Newid yn nyluniad y Cyfleuster Dadlwytho Morol i leihau faint o wely'r môr bydd angen ei gloddio.<br>Roedd Horizon yn cynnig dull gweithredu lled-sych i garthu o flaen Porth-y-pistyll. Roedd y dull gweithredu hwn yn lleihau faint o ddeunydd y byddai angen ei gloddio o dan y dŵr, yn osgoi'r angen i ffrwydro o dan y dŵr ac roedd yn gwella diogelwch a rheolaeth y gweithgareddau adeiladu.<br>Nid oedd Horizon mwyach yn cynnig sychu isloriau ac felly ystyriwyd bod yr effaith ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre'r Gof yn ystod y gwaith o adeiladu'r Gwaith Morol yn fach iawn.<br>Daliwyd ati i ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i geisio deall pryderon a rhoi sylw iddynt mewn cynigion dylunio manwl. |
| Cynllun Rheoli Amgylcheddol a Thirwedd (erbyn hyn wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Rheoli | Diwygiodd Horizon ddyluniad y Cynllun Rheoli Amgylcheddol a Thirwedd (sydd bellach wedi cael ei ymgorffori i raddau helaeth yn y Cynllun Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd, Cyfeirnod Dogfen y Cais: 8.16) i ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth net ac roedd yn darparu mesurau lliniaru cynnar i gymunedau lleol drwy waith creu twmpathau a thirweddu. |

[2] Dylid nodi bod y newidiadau hyn rhwng Cam Un a Cham Dau yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ac nid ydy'r rhain bob amser yn adlewyrchu'r Prosiect fel sy'n cael ei gynnig rŵan gan y cais am DCO.

| Cydran o'r Prosiect | Newid i'r Prosiect |
|---|---|
| Tirwedd a Chynefinoedd) | |
| Ardal Datblygu Wylfa Newydd | Roedd disgwyl i'r cynigion diwygiedig ar gyfer y Prosiect arwain at ostyngiad cyffredinol mewn symudiadau cerbydau ar draws Ynys Môn, o'u cymharu â'r cynigion yng Ngham Un. Roedd y gostyngiad hwn o ganlyniad yn rhannol i ostyngiad yn nifer uchaf y gweithwyr a chymarebau rhannu ceir uwch. Roedd disgwyl i'r cynllun hefyd roi llai o bwysau ar Bont Britannia a Phont Menai. |
| Llwybr Arfordir Cymru a'r Trywydd Copr | Er bod yr adborth yn ffafrio alinio Llwybr Arfordir Cymru yn nes at yr arfordir (un o ddau ddewis a gyflwynwyd yn yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau), cynhaliodd Horizon ddadansoddiad pellach o hyn a phenderfynu y byddai'n rhaid iddo ddarparu llwybr aliniad newydd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a fyddai'n troi tua'r tir wrth yr Orsaf Bŵer Bresennol a'r Orsaf Bŵer arfaethedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd ystyriaethau effeithlonrwydd cost, ystyriaethau technegol ac ystyriaethau diogelwch. |
| Strategaeth Swyddi a Sgiliau | Cafodd y Strategaeth Cadwyn Gyflenwi ei datblygu ymhellach i gynnwys dod o hyd i gyfleoedd cadwyn gyflenwi y byddai modd eu targedu at gwmnïau lleol.<br><br>Roedd Horizon wedi ymrwymo i gefnogi Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau a fyddai'n cael ei gynnal gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a fyddai'n froceriaeth ar gyfer y swyddi a fyddai ar gael yn Wylfa Newydd ac yn cyfeirio pobl o bob rhan o'r rhanbarth at hyfforddiant a chefnogaeth addas ar gyfer y swyddi a oedd ar gael.<br><br>Ymrwymodd Horizon i hysbysebu pob swydd yn lleol.<br><br>Addasodd Horizon ei amcangyfrifon ar gyfer canran y bobl leol a fyddai'n llenwi'r swyddi yn ystod y cam gweithredu i fyny o 45% i 85%. |
| Sgiliau, addysg a hyfforddiant | Yn dilyn yr ymgynghoriad, gweithiodd Horizon gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru, drwy gyfres o grwpiau ffocws, er mwyn datblygu strategaeth addysg a sgiliau ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys cael dadansoddiad o'r sgiliau y bydd eu hangen ar draws y Prosiect a phryd byddai eu hangen, er mwyn helpu i ddatblygu strategaethau hyfforddi.<br><br>Roedd Horizon hefyd wedi parhau i weithio'n agos gydag ysgolion lleol, gan gynnwys drwy'r cynllun prentisiaethau, i wneud yn siŵr bod gan blant lleol y siawns orau bosibl i fanteisio ar y cyfleoedd a fydd yn cael eu creu gan y Prosiect yn y dyfodol. |

| Cydran o'r Prosiect | Newid i'r Prosiect |
|---|---|
| | Ymrwymodd Horizon hefyd i gefnogi rhaglen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer ysgolion uwchradd Ynys Môn i wella'r cyfleusterau gwyddoniaeth a thechnoleg i helpu i wella'r niferoedd a fyddai'n astudio pynciau STEM. |
| Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer | Cafodd y Prosiect ei ddatblygu ymhellach er mwyn cyfuno'r Garej Offer Argyfwng Symudol, y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol ar safle Llanfaethlu, a chafodd hyn ei gyflawni drwy waith dylunio parhaus a defnyddio'r tir a oedd ar gael mewn ffordd well. O'r blaen roedd safle Llanfaethlu wedi cael ei ddiystyru fel safle amgen posibl ar gyfer y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol gan nad oedd o fewn pellter penodol, sef rhwng 1.5km a 5km, o Safle'r Orsaf Bŵer. Fodd bynnag, roedd Horizon yn gallu bodloni ei hun y byddai safle Llanfaethlu'n ateb y gofynion perthnasol. O'r herwydd, nid oedd y datblygiad yng Nghefn Coch na Llanrhuddlad yn cael ei gynnig mwyach. |
| Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu | Datblygodd Horizon Strategaeth Rheoli Llety Gweithwyr.<br><br>Roedd Horizon wedi gwrando ar y safbwyntiau gwahanol a fynegwyd ynghylch a oedd hi'n well gwasgaru'r gweithwyr ar draws yr Ynys ynteu ddarparu llety iddyn nhw mewn un lleoliad. Ar ôl pwyso a mesur daeth Horizon i'r casgliad mai'r ffordd orau o reoli effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol y gweithlu adeiladu ar y gymuned bresennol ydy drwy darparu llety iddyn nhw mewn Campws Safle dros dro mor agos ag sy'n bosibl at Safle'r Orsaf Bŵer. Mae i hyn fantais gallu darparu un safle a reolir a fydd yn gallu cynnwys yr holl gyfleusterau y byddai eu hangen ar weithwyr, gan gynnwys hamdden a gofal iechyd, mewn un lle.<br><br>Mae Horizon yn cynnig sefydlu Cronfa Tai y byddai modd ei defnyddio, ymysg pethau eraill, i ddarparu tai fforddiadwy, parhaol i bobl leol, ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Cynigir y bydd hyn yn cael ei sicrhau drwy Gytundeb Adran 106, ac mae wedi'i restru yn y Map Lliniaru a gyflwynir gyda'r cais am DCO. |
| Trafnidiaeth sy'n ymwneud ag adeiladu | Mae darparu llety ar gyfer gweithwyr mor agos ag sy'n bosibl at Safle'r Orsaf Bŵer yn lleihau nifer y siwrneiau dyddiol ar y rhwydwaith ffyrdd, oherwydd byddai gweithwyr yn teithio i Gampws y Safle ac wedyn yn gyffredinol byddent yn aros yno dros yr wythnos waith 11 diwrnod, er y byddai siwrneiau ceir ar yr A5025 rhwng y Fali a Wylfa a rhwng Amlwch a Wylfa yn cynyddu rhywfaint o ganlyniad i'r newidiadau oherwydd bod mwy o lefydd parcio ar y safle. |

| Cydran o'r Prosiect | Newid i'r Prosiect |
|---|---|
| | Byddai Horizon yn hyrwyddo strategaeth bysiau a mesurau teithio gwyrdd eraill ar gyfer gweithwyr adeiladu. |

### *Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri*

1.3.52 Roedd Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri yn canolbwyntio ar y prif newidiadau i'r Prosiect ers yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau.

1.3.53 Yn ystod y chwe mis rhwng diwedd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau a dechrau'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri roedd Horizon wedi parhau i ddatblygu Prosiect Wylfa Newydd. Cafodd y broses dylunio iteraidd ei dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys adborth i'r ymgynghoriad, gwybodaeth a oedd yn deillio o'r broses asesu amgylcheddol, deddfwriaeth newydd (Deddf Cymru 2017) a phenderfyniadau masnachol.

1.3.54 Roedd y meysydd yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn cynnwys newidiadau i'r canlynol:

- Y Strategaeth Llety Gweithwyr gan gynnwys y Campws Safle arfaethedig yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Newidiadau i ddyluniad a gweithrediad y cyfleuster Parcio a Theithio arfaethedig yn Dalar Hir a'r Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi;
- Darparu un lleoliad ar gyfer y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, gan gynnwys y Garej Offer Argyfwng Symudol, y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol; a
- Prif Safle'r Orsaf Bŵer, gan gynnwys cynigion i symud yr adweithyddion yn nes at ei gilydd er mwyn lleihau ôl troed yr Orsaf Bŵer.

1.3.55 Roedd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri yn cydymffurfio ag adrannau 42, 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio 2008. Anfonwyd llythyr at yr ymgyngoreion rhagnodedig, yr awdurdod lleol perthnasol a'r rheini a oedd â diddordeb yn y tir.

1.3.56 Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu er mwyn diwallu gofynion adran 47 o'r Ddeddf a chafodd ei gynnal yn unol â'r Datganiad diwygiedig o Ymgynghori Cymunedol. Cafodd yr hysbysiad adran 47 ei gyhoeddi mewn papurau newydd lleol cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol.


1.3.57 Cafodd yr hysbysiad cyhoeddusrwydd adran 48 ei gyhoeddi'n ffurfiol fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri. Cafodd yr hysbysiad adran 48 hefyd ei anfon at Gyrff Ymgynghorol yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol fel sy'n ofynnol gan Reoliad 11 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009. Mae mwy o fanylion am y broses ymgynghori o ran y gofynion statudol ar gael yn Adroddiad yr Ymgynghoriad.

1.3.58 Cafodd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri ei gynnal dros 4 wythnos, rhwng 24 Mai a 22 Mehefin 2017. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried tan 22 Mehefin 2017.

## Trosolwg o’r adborth i’r ymgynghoriad

1.3.59 Cafwyd 359 o ymatebion i’r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri. Mae’r graff canlynol yn dangos y dadansoddiad o’r mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

**Ffigur 1-5 Mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri**




1.3.60 Mae Tabl 1-5 yn dangos nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob un o gwestiynau’r ymgynghoriad.

1.3.61 Mae’r atebion nad oeddent yn mynd i’r afael yn uniongyrchol â chwestiynau’r ymgynghoriad (er enghraifft negeseuon e-bost neu lythyrau nad oeddent yn dilyn strwythur y ffurflen ymateb), hefyd wedi cael eu cynnwys yn y tabl fel ‘atebion nad ydynt yn ffitio’.

**Tabl 1-5 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri - Nifer yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad**

| Cwestiwn ar y ffurflen adborth | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
| --- | --- |
| C1: Ydych chi’n cytuno â’n cynlluniau i ddarparu llety gweithwyr dros dro ar ffurf campws ar Gampws y Safle? | 149 |
| C2: Os caiff Campws y Safle ei ddatblygu ar gyfer gweithwyr adeiladu, beth ddylai ein blaenoriaethau fod yn eich barn chi er mwyn | 124 |

| Cwestiwn ar y ffurflen adborth | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
| --- | --- |
| lleihau unrhyw effeithiau posibl ar gymunedau lleol? | |
| C3: Ydych chi’n ffafrio’r cynigion newydd i osod yr holl Gyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer yn Llanfaethlu? | 133 |
| C4: Os caiff y safle yn Llanfaethlu ei ddatblygu ar gyfer Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer, beth ddylai ein blaenoriaethau fod yn eich barn chi er mwyn lleihau unrhyw effeithiau posibl ar drigolion lleol? | 104 |
| C5: Ydych chi’n ffafrio’r cynigion hyn i leihau nifer y llefydd parcio yn y cyfleuster parcio a theithio drwy eu disodli â llefydd parcio ychwanegol ar Safle Wylfa Newydd? | 129 |
| C6: Beth ydych chi’n credu ddylai fod yn flaenoriaethau i ni ar gyfer lleihau'r effeithiau posib yn safle Parc Cybi? | 93 |
| C7a. Ydych chi’n ffafrio’r dyluniad a’r cynllun newydd ar gyfer y cynigion diweddaraf ar gyfer yr A5025 – cyffordd y Fali? | 134 |
| C7b. Ydych chi’n ffafrio’r dyluniad a’r cynllun newydd ar gyfer y cynigion diweddaraf ar gyfer yr A5025 – Llanfachraeth? | 134 |
| C7c. Ydych chi’n ffafrio’r dyluniad a’r cynllun newydd ar gyfer y cynigion diweddaraf ar gyfer yr A5025 – Llanfaethlu? | 128 |
| C7d. Ydych chi’n ffafrio’r dyluniad a’r cynllun newydd ar gyfer y cynigion diweddaraf ar gyfer yr A5025 – Cefn Coch? | 126 |
| C7e. Ydych chi’n ffafrio’r dyluniad a’r cynllun newydd ar gyfer y cynigion diweddaraf ar gyfer yr A5025 – ffordd fynediad yr Orsaf Bŵer? | 123 |

| Cwestiwn ar y ffurflen adborth | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| C8: Beth ydych chi'n meddwl ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer ein Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant? | 103 |
| C9: Nodwch pa fathau o brosiect sydd bwysicaf i chi. | 118 |
| C10: Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol eraill am Brosiect Wylfa Newydd? | 117 |
| Atebion nad ydynt yn ffitio | 205 |

***Crynodeb o'r prif themâu o'r adborth i'r ymgynghoriad Cam Tri***

1.3.62 Roedd y ffaith bod gan yr ymgynghoriad Cam Tri fwy o ffocws, a oedd yn seiliedig ar y newidiadau i'r Prosiect ers Cam Dau, yn anochel yn golygu bod y rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymwneud â'r Llety Gweithwyr Dros Dro. Cafodd y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r llety i weithwyr oddi ar y safle ei feirniadu gan rai ymgyngoreion a oedd yn poeni am golli effaith i'r dyfodol yn y cymunedau dan sylw. Roedd ymgyngoreion eraill o blaid darparu llety i'r gweithwyr dros dro yn agos at yr Orsaf Bŵer oherwydd y manteision posibl i lefelau'r traffig ar yr A5025.

1.3.63 Roedd pryder parhaus ynghylch effaith y mewnlifiad o weithwyr ar wasanaethau lleol, yn enwedig gofal iechyd ac ysgolion, yn enwedig gan ymgyngoreion o Dregele a Chemaes, y cymunedau agosaf at y Llety Gweithwyr Dros Dro. Fodd bynnag, roedd ymgyngoreion eraill yn cefnogi'r ddarpariaeth ar y safle yn y Campws Llety ac roedd diddordeb mewn gwybod a allai hyn ategu darpariaeth leol.

1.3.64 Roedd ymgyngoreion technegol yn dal yn feirniadol o lefel y manylion yn y Dogfennau Ymgynghori a oedd yn cael eu defnyddio i gefnogi'r tybiaethau a'r camau lliniaru a oedd yn cael eu cynnig. Yn benodol, effaith y prosiect ar SoDdGA Tre'r Gof.

1.3.65 At ei gilydd roedd ymgyngoreion yn cefnogi'r gostyngiad yn ôl troed yr Orsaf Bŵer a'r newidiadau i'r dyluniad.

1.3.66 Roedd y gostyngiad yn nifer y gweithwyr a ddisgwyliwyd yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf yn bryder i ymgyngoreion a oedd yn holi a fyddai hyn yn lleihau effaith economaidd y prosiect. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth ar gyfer y cynnydd yn y gyfran ddisgwyliedig o bobl leol a fyddai'n cael eu cyflogi yn yr Orsaf Bŵer yn ystod ei gam gweithredu, o 45% o 85%.

1.3.67 Roedd pryderon ynghylch yr effaith ar y Gymraeg a'i diwylliant yn parhau ymysg rhai ymgyngoreion, ac roedd eraill yn credu y byddai'r strategaeth llety gweithwyr a oedd yn darparu llety mewn un lle yn effeithio llai ar y gymuned Gymraeg.

## Newidiadau i Brosiect Wylfa Newydd ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri

1.3.68 Cafodd nifer o newidiadau eu gwneud i'r Prosiect ar ôl i Horizon ystyried yr adborth i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri.

**Tabl 1-6 Y Newidiadau i'r Prosiect ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri**

| Cydran o'r Prosiect | Newid i'r Prosiect |
|---|---|
| Safle'r Orsaf Bŵer | O ganlyniad i ragor o newidiadau i wella'r prosiect newidiadau i gynllun safle'r Orsaf Bŵer gan gynnwys y bylchau rhwng adeiladau a ffurfiau'r adeiladau. Er enghraifft, trawsnewidyddion newydd a newidiadau i adeilad y tyrbin, newid bach i leoliad Simnai'r Generadur Disel Argyfwng a chynnydd ym maint Adeilad y Boeler Ategol.<br><br>Adeiladau ychwanegol ar Safle'r Orsaf Bŵer gan gynnwys, gorsaf danwydd, dau adeilad gêr switsh newydd, warws logisteg offer ac ardaloedd parcio newydd. |
| Cynnwys Safleoedd Gwneud Iawn y SoDdGA yn y cais am DCO. | Mae'n bosibl i'r gwaith adeiladu sy'n cael ei gynnig yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd gael effaith sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof sydd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Er y bydd Horizon yn defnyddio pob mesur rhesymol i osgoi a lleihau'r effeithiau negyddol ar y SoDdGA mae Horizon yn cynnig gwaith creu a gwella cynefinoedd oddi ar y safle mewn tri safle, i wneud yn iawn fel rhan o'r cais am DCO petai effeithiau sylweddol o'r fath yn codi. Os na fydd effeithiau'r gwaith mor sylweddol ag a ddisgwylir, byddai'r gwaith gwneud iawn yn fantais sylweddol i rwydwaith Ynys Môn o safleoedd tir corsiog. Cafodd manylion y newid hwn eu cyflwyno yn yr Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2018 fel y manylir yn yr adran ganlynol o'r Crynodeb Gweithredol hwn. |
| Newidiadau i Derfynau'r Gorchymyn mewn | Roedd yr ymatebion a gafwyd o ganlyniad i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri yn cynnwys sylwadau ar yr angen i sefydlu mesurau lliniaru ecolegol ac ar y cysylltiad â'r grid cenedlaethol. Mae'r newidiadau i |

| Cydran o’r Prosiect | Newid i’r Prosiect |
|---|---|
| perthynas ag: Ardal Datblygu Wylfa Newydd | Derfynau’r Gorchymyn sy’n gysylltiedig ag Ardal Datblygu Wylfa Newydd o ran mesurau lliniaru ecolegol yn ymwneud â dwy ardal o dir sydd eu hangen i liniaru effeithiau posibl y gwaith arfaethedig i Baratoi a Chlirio'r Safle ar rywogaethau ac ymlusgiaid penodol. Mae’r ardaloedd hyn yn cael eu galw yn Safle Gwella Bywyd Gwyllt Nodedig a'r Safle Derbyn Ymlusgiaid a gyda’i gilydd maen nhw’n cael eu galw yn Ardaloedd Lliniaru Ecolegol. Mae’r gwaith yn yr ardaloedd gwella ecolegol eisoes wedi cael ei wneud cyn gweithredu’r gwaith i baratoi a chlirio’r safle. Mae’r mân newidiadau eraill i Derfynau’r Gorchymyn yn gysylltiedig ag is-orsaf bresennol y National Grid sydd yn union i’r de ddwyrain o'r Orsaf Bŵer Bresennol. Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn gallu gwneud y gwaith cysylltu angenrheidiol. |
| Newidiadau i Derfynau’r Gorchymyn: Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer a’r Ganolfan Logisteg | Nid ydy'r cyfleusterau sydd eu hangen wedi newid ers yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri, fodd bynnag ar ôl ystyriaethau dylunio manwl cafodd mân newidiadau eu gwneud i Derfynau’r Gorchymyn ar gyfer y Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer. Mae hyn yn golygu ychwanegu un ardal fach ar ymyl gogleddol y safle i ddarparu lle ar gyfer storio cynhwysyddion sbwriel mewn compownd diogel y bydd modd ei gyrraedd o’r man aros wrth ymyl yr A5025 heb fod angen mynd i mewn i’r Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer.<br><br>Yn yr un modd, ar gyfer y Ganolfan Logisteg, ar ôl ystyried y dyluniad yn fanwl mae angen ardal ychwanegol o ryw 0.12 hectar at gornel gogledd orllewinol y safle er mwyn gwneud lle i ddraenio dŵr wyneb i’r pwll dal dŵr ffo presennol sydd rhwng safle’r Ganolfan Logisteg a Chyfleuster Trin Dŵr Dŵr Cymru. |
| Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer | Dyluniad wedi’i ddiweddaru i gynnwys cysylltiad dŵr budur â’r brif garthffos. |
| Datblygiadau Cysylltiedig | Campws y Safle - newid aliniad ffens y safle i newid ffensys 90 gradd (ongl sgwâr) gyda ‘siamffrau’ 45 gradd (ffensys cymesur, ongl fwy main). |

| Cydran o’r Prosiect | Newid i’r Prosiect |
|---|---|
| | Canolfan Logisteg - Newid i fanylion draenio’r wyneb a dŵr budur er mwyn cysylltu'r draen wyneb â’r pwll presennol yng ngogledd orllewin y safle a’r draen dŵr budur i’r cyfleuster trin carthion yng ngogledd orllewin y safle.<br><br>Parcio a Theithio - Newid i’r allanfa yn nwyrain y safle er mwyn alinio â’r dyluniad ar gyfer “allanfa heb droi i’r chwith”; darparu mynediad eilaidd i feysydd parcio 2 a 4. |
| Trafnidiaeth sy’n ymwneud ag adeiladu | Symudiadau harbwr - Newid i 8 symudiad (4 i mewn a 4 allan) fesul shifft 12 awr. Dwy shifft deuddeg awr, cyfanswm o 16 symudiad y dydd. Tybir y caiff pob symudiad ei gefnogi gan fadau tynnu. |

### *Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol*

1.3.69 Ar ôl yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri cafodd rhagor o waith ei wneud i baratoi’r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO). Fel rhan o’r ymarfer hwnnw penderfynwyd bod angen diwygio maint ardal y datblygiad a awdurdodir gan y DCO ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw (Terfynau’r Gorchymyn ydy'r enw ar hyn) er mwyn adlewyrchu’r tir ychwanegol y byddai ei angen ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd.

1.3.70 Roedd yn rhaid cynnal ymarfer ymgynghori ychwanegol er mwyn i Horizon allu cyfathrebu faint o dir y byddai ei angen er mwyn gweithredu’r Prosiect.

1.3.71 Roedd yr ymgynghoriad ar y tir ychwanegol arfaethedig yn canolbwyntio ar leoliadau daearyddol mewn perthynas â’r newidiadau canlynol i Brosiect Wylfa Newydd.

- cynnwys Safleoedd Gwneud Iawn y SoDdGA yn y cais am DCO;
- cadarnhau Terfynau’r Gorchymyn mewn perthynas â’r Newidiadau i Briffordd yr A5025; a
- newidiadau i Derfynau’r Gorchymyn mewn perthynas ag:
  - Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
  - y Cyfleusterau’r Orsaf Bŵer oddi ar y Safle; a
  - y Ganolfan Logisteg.

1.3.72 Ac ystyried bod yr ardaloedd newydd o dir bellach wedi’u cynnwys yn Nherfynau’r Gorchymyn, cynhaliodd Horizon ymgynghoriad statudol er mwyn sicrhau bod pob parti perthnasol yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y newidiadau arfaethedig. Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal yn unol â Datganiad o Ymgynghori Cymunedol Cam Tri.

1.3.73 Cafodd yr Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol ei gynnal rhwng 16 Ionawr ac 16 Chwefror 2018 (32 diwrnod calendr).

1.3.74 Cafodd Dogfen Trosolwg o'r Ymgynghoriad ddwyieithog (edrychwch ar Atodiad E.6 prif Adroddiad yr Ymgynghoriad) a Phrif Ddogfen Ymgynghori eu defnyddio er mwyn rhoi gwybodaeth i ymgyngoreion am y tir ychwanegol arfaethedig.

1.3.75 Darparwyd ffurflen adborth Gymraeg a Saesneg (edrychwch ar Atodiad E.8 prif Adroddiad yr Ymgynghoriad) ar-lein ac mewn copïau papur yn y digwyddiadau arddangos. Roedd y ffurflenni adborth yn helpu'r ymgyngoreion i gyflwyno sylwadau ar elfennau gwahanol yr ymgynghoriad ar dir ychwanegol; fodd bynnag, nid oedd yn rhaid i ymgyngoreion lenwi'r ffurflenni hyn ac roedd croeso iddynt ddarparu eu hadborth ysgrifenedig mewn fformatau gwahanol. Roedd y ffurflen adborth yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

1. Rydyn ni'n cynnig creu neu wella safleoedd gwlyptir ar Ynys Môn i wneud iawn am unrhyw effaith bosibl y gallem ei chael ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safleoedd sy'n cael eu cynnig neu'r gwaith sy'n cael ei awgrymu yn Nhŷ Du, Cors Gwawr a Chae Canol-dydd? Nodwch pa leoliad rydych chi'n cyfeirio ato.*

2. Rydyn ni wedi ymestyn Terfynau'r Gorchymyn (y ffiniau ar gyfer yr holl dir y byddwn ni ei angen) ar ochr orllewinol ein safle Wylfa Newydd er mwyn darparu lle ar gyfer y ddwy ardal gwella ecolegol newydd rydyn ni wedi'u creu ym Mynydd-Ithel a Phen Carreg. Mae angen i ni hefyd wneud mân newidiadau i'n cysylltiad ag is-orsaf y National Grid yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynigion hyn?*

3. Rydyn ni rŵan wedi cadarnhau Terfynau'r Gorchymyn (y ffiniau ar gyfer yr holl dir y byddwn ni ei angen) ar gyfer yr adrannau newydd o'r A5025 rhwng y Fali a safle Wylfa Newydd. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig hwn? Nodwch pa leoliad rydych chi'n cyfeirio ato.*

4. Mae angen i ni wneud mân addasiadau i ffiniau ein Cyfleusterau arfaethedig Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn Llanfaethlu, a'r Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y rhain? Nodwch pa leoliad rydych chi'n cyfeirio ato.*

5. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill sy'n ymwneud â'n cynigion ar gyfer y tir y byddwn ni ei angen i adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd?*

1.3.76 Cafodd llythyrau ac USB a oedd yn cynnwys y dogfennau ymgynghori eu hanfon at ymgyngoreion rhagnodedig o dan Adran 42(1)(a) o'r Ddeddf ac at randdeiliaid allweddol eraill. Anfonwyd llythyr ac USB at Gyngor Sir Ynys Môn o dan Adran 42(1)(b) fel yr awdurdod lleol perthnasol. Cafodd llythyrau ac USB hefyd eu hanfon at bobl sydd â diddordeb yn y tir o dan Adran 42(1)(d) o'r Ddeddf. Cafodd llythyr ac USB hefyd eu hanfon at yr Arolygiaeth Gynllunio ar sail dewisol. Caiff llythyrau enghreifftiol eu cynnwys yn Atodiad E.2.

1.3.77 Cafodd hysbysiadau statudol o dan Adran 48 o'r Ddeddf am y cais arfaethedig, gan gynnwys y tir ychwanegol, eu cyhoeddi mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol (edrychwch ar Atodiad E.4). Cafodd yr hysbysiad Adran 48 hefyd ei anfon at y cyrff ymgynghori Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gyda llythyr esboniadol er mwyn cydymffurfio â Rheoliad 11 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009 (edrychwch ar Atodiad E.4).

### Canlyniadau'r Ymgynghoriad ynghylch Tir Ychwanegol

1.3.78 Cafodd y sylwadau a gawsom eu dadansoddi a'u coladu cyn eu dosbarthu i'r arbenigwyr technegol perthnasol yn Horizon i gael eu hystyried. Cafwyd cyfanswm o 54 o ymatebion erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Dyma'r themâu a ddaeth i'r amlwg:

- Y Broses Ymgynghori;
- Ecoleg;
- Yr Amgylchedd;
- Iechyd, Diogelwch a Lles;
- Tirwedd;
- Dim Sylw;
- Gwastraff Niwclear;
- Arall;
- Seilwaith Ymgymerwyr Statudol;
- Cefnogaeth a Gwrthwynebiad;
- Trafnidiaeth.

1.3.79 Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o'r ymatebion a gafwyd o dan bob un o'r penawdau thematig a nodir uchod.

**Tabl 1-7 Crynodeb o'r sylwadau a wnaed yn yr Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol**

| Thema | Crynodeb o'r sylwadau a wnaed |
|---|---|
| Y Broses Ymgynghori | Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau gan ymgyngoreion cymunedol yn gadarnhaol ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd yn y digwyddiadau ymgynghori a'u sgyrsiau â staff Horizon. Roedd un ymgynghorai yn amheus o ran a fyddai ei sylwadau, a sylwadau'r cymunedau yr effeithir arnynt, yn cael eu hystyried. Gofynnodd yr RSPB am gael gwybod am unrhyw ymgyngoriadau yn y dyfodol. Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn y byddai'r Cyngor yn craffu ar ymateb Horizon i sylwadau ymgyngoreion yn yr |

| Thema | Crynodeb o’r sylwadau a wnaed |
|---|---|
| | Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol fel rhan o’i rôl statudol yn darparu digon o sylwadau ymgynghoriad yn y cam derbyn. Roedd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn feirniadol o’r ffaith nad oedd wedi cael digon o amser i ymateb i’r wybodaeth am dir gwneud iawn y SoDdGA ac i ddylanwadu ar y cynigion. |
| Ecoleg | Roedd yr ymgyngoreion cymunedol yn gefnogol, fodd bynnag mynegodd rhai bryder na fyddai digon o amser i sefydlu'r cynefin newydd, ac y gallai rhai rhywogaethau adael a pheidio â dychwelyd. Yn arbennig, dywedodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru na fyddai modd ailgreu Cynefin Corsiog o fewn yr amserlen a gynigir. Roedd un ymgynghorai yn bryderus ynglŷn â gwiberod yn symud yn agosach i’w tir, a’r bygythiad dilynol i dda byw ac aelodau o'r teulu.<br><br>Gofynnodd Cyngor Sir Ynys Môn am fwy o wybodaeth am sut a phryd byddai rhywogaethau’n cael eu symud.<br><br>Dywedodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ei bod yn croesawu’r gwaith o greu safleoedd gwella ecolegol, ond byddai mwy o waith wedi gallu cael ei wneud yng nghyswllt bioamrywiaeth. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth a’r Cyngor fod angen mwy o wybodaeth am reolaeth barhaus y safleoedd lliniaru. Dywedodd y Cyngor mai’r prif fater ydy a fydd y safleoedd gwella ecolegol yn ddigon mawr i wneud iawn am yr effeithiau ecolegol yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. |
| Yr Amgylchedd | Soniodd yr ymgyngoreion am y bygythiad o lifogydd arfordirol o ganlyniad i’r newid yn yr hinsawdd. Soniodd nifer o ymgyngoreion am yr effaith ar Erddi Cestyll fel safle hanesyddol hefyd. Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer safleoedd gwneud iawn y SoDdGA, fodd bynnag roedd pryder y gallai ffermio dwys o gwmpas y safleoedd gwneud iawn effeithio arnynt. Yn ôl un ymgynghorai, nid oes angen rhagor o safleoedd gwlyptir ar Ynys Môn, a byddai’r cynigion yn arwain at golli tir ffermio da.<br><br>Cafodd pryderon o ran llygredd sŵn a golau yn sgil yr adrannau newydd o'r A5025 eu crybwyll gan ddau ymgynghorai. |

| Thema | Crynodeb o’r sylwadau a wnaed |
| --- | --- |
| | Roedd newid Llwybr Arfordir Cymru yn bryder a fynegwyd gan dri ymgynghorai.<br><br>Nid oedd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn credu bod modd cyfiawnhau Campws y Safle o ran ei effaith ar y SoDdGA, ac nad oedd digon o dir gwneud iawn o ystyried faint o dir SoDdGA fyddai’n cael ei golli, gan ddibynnu ar ddarparu mathau eraill o gynefin gwneud iawn. Roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn credu bod angen mwy o wybodaeth am amrywiaeth o faterion gan gynnwys draenio, clustogfeydd hydrolegol ac adfer mawn.<br><br>Roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod y gwaith gwella ecolegol a oedd wedi cael ei wneud hyd yma, a dywedodd y dylai'r Datganiad Amgylcheddol, sy’n ategu’r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu a’r cais cynllunio ar gyfer y gwaith Paratoi a Chlirio’r Safle, fod yn gyson o ran sut mae'r safleoedd ecolegol yn cael eu hasesu, a sut byddant yn cael eu cynnal a’u rheoli. |
| Iechyd, Diogelwch a Lles | Dywedodd Public Health England ei fod yn fodlon y byddai unrhyw beryglon i iechyd y cyhoedd yn sgil y tir ychwanegol yn fach iawn a / neu byddai modd eu rheoli’n ddigonol. |
| Tirwedd | Gofynnodd ymgynghorai cymunedol am fwy o wybodaeth am gynigion tirweddu i liniaru effaith weledol y bont ffordd newydd sy’n cael ei chynnig yn Llanfachraeth. |
| Gwastraff Niwclear | Soniodd ymgyngoreion cymunedol am waredu tanwydd niwclear sydd wedi cael ei ddefnyddio. Roeddent yn feirniadol o hyd cyfnod storio’r gwastraff, yr effaith ar genedlaethau’r dyfodol a'r costau sydd ynghlwm wrth storio’r gwastraff. |
| Arall | Roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â materion gwahanol nad oedd yn perthyn i’r themâu eraill. Roedd un ymgynghorai yn feirniadol o'r ffaith fod mwy o ymdrech yn cael ei gwneud i asesu’r effeithiau ar fywyd gwyllt nag asesu’r effeithiau ar bobl sy’n byw yn agos i’r adrannau newydd o’r A5025. Roedd ymgynghorai arall yn ofni y byddai’r aliniad ffordd newydd yn Llanfachraeth yn cael effaith niweidiol ar werth ei eiddo. Cododd busnes lleol |

| Thema | Crynodeb o’r sylwadau a wnaed |
|---|---|
| | bryderon y byddai’r cynigion ar gyfer yr A5025 yn y Fali yn tresmasu ar ei eiddo ac yn effeithio ar ei weithrediadau. Roedd Gwylwyr y Glannau EM am weld mynediad at y morlin i gerbydau 4x4 yn cael ei gadw. |
| Seilwaith Ymgymerwyr Statudol | Ymatebodd tri ymgynghorai, gyda dau yn cadarnhau nad oedd ganddynt gyfarpar na seilwaith ar y tir ychwanegol. Dywedodd National Grid/Cadent Gas plc fod ganddo rywfaint o gyfarpar yn ardal y tir ychwanegol, a chyfeiriodd y mater at ei dîm diogelu asedau. |
| Cefnogaeth a Gwrthwynebiad | Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a gafwyd yn gwrthwynebu mewn egwyddor y defnydd o bŵer niwclear oherwydd y gost a phryderon diogelwch o ran iechyd y cyhoedd a’r amgylchedd. Roedd un ymgynghorai yn gwrthwynebu “colli” SoDdGA Tre’r Gof, ac nid oedd yn cefnogi creu safleoedd gwneud iawn. Roedd ymgynghorai arall yn gadarnhaol ynghylch y safleoedd gwella ecolegol a pha mor hawdd ydy eu cyrraedd o’r llwybr arfordirol. Cafwyd wyth sylw a oedd yn cefnogi’r cynigion neu’n niwtral yn eu cylch. Roedd un ymgynghorai yn cefnogi’r cynigion ar gyfer yr A5025 ac yn credu y byddent yn hwyluso llif y traffig yn y Fali ac yn Llanfachraeth. Roedd ymgynghorai arall yn cefnogi’r cynigion ym Mharc Cybi, ond dywedodd fod Siambr Gladdu Trefignath yn agos iddo. Mynegodd Cyngor Sir Ynys Môn ei gefnogaeth mewn egwyddor ar gyfer y safleoedd gwella ecolegol, a chadarnhau ei fod wedi cynnal trafodaethau ynghylch eu creu cyn yr ymgynghoriad. |
| Trafnidiaeth | Cafwyd sylwadau gan dri pherchennog tir y mae’r A5025 yn effeithio arnynt, a mynegon nhw bryderon ynglŷn â’r effaith ar eu heiddo a / neu roeddent am gael mwy o wybodaeth am y materion sy’n ymwneud yn benodol â’u tir nhw. Roedd yr ymgyngoreion cymunedol yn gefnogol ar y cyfan; fodd bynnag roedd gan rai bryderon ynglŷn â chyflymder ffyrdd a diogelwch cyffyrdd ar yr adrannau newydd o ffordd. Roedd pryder ynglŷn â'r teithiau cerbydau nwyddau trwm ar gyfer adleoli uwchbridd o safleoedd gwneud iawn SoDdGA. Roedd rhai o drigolion y pentrefi y bydd yr adrannau newydd o ffordd yn |

| Thema | Crynodeb o’r sylwadau a wnaed |
| --- | --- |
| | effeithio arnynt yn feirniadol o effeithiau llygredd sŵn ac aer ar eiddo preswyl cyfagos.<br><br>Dywedodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru nad oedd trefniadau mynediad ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd wedi’u dangos yn y deunydd ymgynghori. |

1.3.80 Mae’r sylwadau manwl ac ymatebion Horizon iddynt wedi cael eu nodi mewn tablau cryno yn Adroddiad yr Ymgynghoriad yn Atodiad E.9.

### *Ymgynghori anffurfiol arall*

1.3.81 Yn ogystal â’r camau ymgynghori ffurfiol, cynhaliwyd cyfnodau eraill o ymgynghori anffurfiol (anstatudol) hefyd. Roedd yr ymgynghori anffurfiol hwn yn cynnwys gweithgorau, grwpiau cyswllt cymunedol a digwyddiadau diweddaru.

#### *Grŵp Cyswllt y Prosiect*

1.3.82 Sefydlwyd Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd yn 2010. Ei rôl ydy hwyluso'r cyfathrebu rhwng Horizon a’r gymuned. Fel rheol mae aelodau Grŵp Cyswllt y Prosiect yn cynnwys sefydliadau fel Cynghorau Cymuned, grwpiau gwirfoddol a darparwyr gwasanaethau cymunedol. Mae cwmpas Grŵp Cyswllt y Prosiect yn hyblyg ac mae cydnabyddiaeth y bydd yn esblygu wrth i’r prosiect fynd rhagddo. Mae pynciau sydd wedi cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd Grŵp Cyswllt y Prosiect wedi cynnwys cyflogaeth; cadwyn gyflenwi; sgiliau; seilwaith; trafnidiaeth; manteision cymunedol; iechyd a diogelwch; yr amgylchedd; gwasanaethau brys; a’r hyn a fydd yn cael ei adael ar ôl i’r dyfodol.

#### *Swyddogion Cynnwys y Gymuned*

1.3.83 Cynhyrchwyd Adroddiad Swyddogion Cynnwys y Gymuned ym mis Ebrill 2017 ar sail gwaith y tri Swyddog Cynnwys y Gymuned o dan y fenter prosiect ar y cyd rhwng Medrwn Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a Horizon.

1.3.84 Bwriad cwmpas y fenter oedd denu mwy o drigolion Ynys Môn i gymryd rhan drwy ddefnyddio dulliau ymgysylltu a oedd yn fwy amrywiol. Mae’r adroddiad yn cynnwys cyfres o arsylwadau cyffredinol mewn perthynas â’r digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gan Horizon ar gyfer Wylfa Newydd. Mae Adroddiad Swyddogion Cynnwys y Gymuned wedi cael ei gynnwys yn Atodiad D.5 Prif Adroddiad yr Ymgynghoriad.

#### *Diweddariad Ionawr 2016*

1.3.85 Roedd y Diweddariad ar y Prosiect ym mis Ionawr 2016 yn gyfle i drigolion ac i sefydliadau weld y cynlluniau a’r cynigion diweddaraf a rhoi adborth, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd posibl ar gyfer y datblygiadau cysylltiedig a Llety Gweithwyr Dros Dro. Roedd yr adborth a gafwyd wedi cyfrannu at ragor o waith datblygu ar y Prosiect i baratoi ar gyfer yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau a gynhaliwyd yn nes ymlaen yn 2016.

1.3.86 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016 a chynhaliwyd 11 o ddigwyddiadau arddangos cyhoeddus ar draws Ynys Môn, Gwynedd ac yng Nghonwy.

1.3.87 Cafodd yr adborth o ymgynghoriad Diweddariad Ionawr 2016 ei goladu, ei ddadansoddi a'i adrodd yn ôl yn yr Adroddiad Crynodeb ar yr Ymgynghoriad, a oedd yn rhan o Ddogfennau Ymgynghori Cam Dau. Roedd yr adborth wedi cyfrannu at ddatblygu cynigion y Prosiect a gyflwynwyd yng Ngham Dau.

### *Y Cynllun Cefnogi Cymdogaeth*

1.3.88 Mae'r Cynllun Cefnogi Cymdogaeth yn gynllun gwirfoddol, a'i fwriad ydy darparu cefnogaeth sy'n mynd y tu hwnt i unrhyw reolaethau a mesurau lliniaru statudol a nodir ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Mae'n cynnwys dau fesur gwahanol:

- **Cefnogaeth Pris Eiddo –** Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i'r trigolion sy'n byw agosaf at Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac y mae'r datblygiad yn effeithio ar werth eu heiddo.
- **Strategaeth Lliniaru Sŵn Lleol –** Mae hyn yn cynnwys mesurau ychwanegol i leihau'r sŵn yn yr eiddo y bydd y gwaith yn effeithio arnyn nhw. Cynllun Lliniaru Aflonyddwch oedd yr enw gwreiddiol ar hyn.

1.3.89 Bu Horizon yn ymgynghori gyntaf ar ei gynigion ar gyfer y Cynllun Cefnogi Cymdogaeth ochr yn ochr â'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un, rhwng 29 Medi a 8 Rhagfyr 2014.

1.3.90 Cynhaliwyd ymgynghoriad arall ar y Strategaeth Lliniaru Sŵn Lleol rhwng 31 Awst a 25 Hydref 2016 ochr yn ochr â'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau.

### *Manteision Cymunedol*


1.3.91 Ochr yn ochr â Diweddariad ar y Prosiect Horizon ym mis Ionawr 2016, roedd taflen ffeithiau ar gael a oedd yn cynnwys gwybodaeth am nodau manteision cymunedol Horizon ac am y gwaith a oedd wedi cael ei wneud gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddod i ddealltwriaeth gyffredin ar fanteision cymunedol.

1.3.92 Roedd Horizon wedyn wedi ymgynghori ar egwyddorion allweddol cynllun manteision cymunedol gwirfoddol rhwng 31 Awst a 25 Hydref 2016, ochr yn ochr â'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau.

### *Fframwaith ymgysylltu trosfwaol gyda Chyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru*

1.3.93 Yn gynnar yn y broses Ymgynghori Cyn Ymgeisio, cytunwyd ar fframwaith ymgysylltu trosfwaol rhwng Horizon a Chyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i drafod a dadlau ynghylch materion sy'n berthnasol i'r strategaethau a dull gweithredu manwl ar gyfer asesu Prosiect Wylfa Newydd. Yn nes ymlaen yn y broses, cafodd y fframwaith wedyn ei ddefnyddio i drafod y materion technegol a allai fod yn sail i Ddatganiadau Tir Cyffredin ar sail pynciau, fel y dangosir yn Ffigur 1-6.

**Ffigur 1-6 Mathau o ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau**




1.3.94 Mae Horizon wedi defnyddio’r fframwaith hwn i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn rheolaidd ers dechrau Prosiect Wylfa Newydd. Mae hyn wedi bod ar y ffurfiau canlynol:

- **Gweithgor Statudol** - cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol, gyda chynrychiolwyr o’r sefydliadau canlynol: Cyngor Sir Ynys Môn; Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; Cyngor Gwynedd (Uned Polisi a Chynllunio ar y Cyd); y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear; Sefydliad Rheolaeth Forol; Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Gwynedd; Uned Cysyniadau Morol Llywodraeth Cymru; a Llywodraeth Cymru - Cadw.
- **Grwpiau ffocws pwnc** (Lefel 3 o’r fframwaith ymgysylltu) er mwyn datblygu a chytuno ar y sylfaen dystiolaeth, y fethodoleg a'r ddealltwriaeth o’r prif effeithiau a’r strategaethau lliniaru ar gyfer nifer o faterion allweddol sy’n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd. Dyma oedd pynciau'r grwpiau ffocws a’r rheini a oedd yn bresennol:
    - **Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant** – Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, Cadeirydd Grŵp Llywio Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith.
    - **Datblygu economaidd a’r gadwyn gyflenwi; addysg, sgiliau a llafur, a strategaeth tai/llety** – Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru.
    - **Twristiaeth; Trafnidiaeth** – Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

        - **Iechyd a lles** – Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru.
        - **Yr Amgylchedd** – Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.
    - **Gweithgorau pwnc** (Lefel 4 o'r fframwaith ymgysylltu) a gynhaliwyd ar sail thematig er mwyn cyfrannu at drafodaethau'r grwpiau ffocws a datrys materion technegol a phenodol mewn perthynas â'r Prosiect. At ei gilydd roedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis neu bob chwarter ar y pynciau canlynol:
        - **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg** - Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Comisiynydd y Gymraeg, Menter Môn a Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd.
        - **Gwastraff a mwynau; Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** - Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyfoeth Naturiol Cymru.
        - **Rheoliadau Cynefinoedd** - Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.
        - **Yr amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol** - Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, Gwasanaeth Cynllunio Archaeoleg Gwynedd a Cadw.
        - **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd** - Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Public Health England, Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa, Llywodraeth Cymru ac Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru.

1.3.95 Yn dilyn cyfarfodydd Grŵp Ffocws ym mis Mai 2017, cytunwyd gyda Chyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru y byddai'r gwaith ymgysylltu hyd at gyflwyno'r cais am DCO, ac wedi hynny, yn cael ei wneud drwy ddefnyddio dull gweithredu "ar sail materion". Byddai'r Gweithgorau hefyd yn parhau i gwrdd yn ôl y galw.

***Tirfeddiannwyr***

1.3.96 Mae gan Horizon dîm eiddo mewnol sy'n rheoli'r eiddo mae'n berchen arno ac mae'n ei lesio sy'n cael ei ddefnyddio gan y busnes, gan gynnwys tenantiaethau amaethyddol, preswyl a masnachol. Maen nhw hefyd yn rheoli mynediad ar gyfer arolygon a thrafodaethau gyda thirfeddianwyr ar sail fasnachol i sicrhau'r hawliau angenrheidiol dros dir er mwyn gallu adeiladu a gweithredu'r Prosiect.

1.3.97 Mae Horizon wedi cyflogi cwmni allanol o Syrfewyr Siartredig, Fisher German, sy'n adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth Eiddo neu Reolwr Ystâd Horizon. Ar ran Horizon, mae Fisher German yn ymgysylltu o ddydd i ddydd â'r tirfeddianwyr amaethyddol a phreswyl a'r tenantiaid, gan gynnwys trefnu

mynediad ar gyfer arolygon. Mae hon yn berthynas hanesyddol sydd wedi cael ei meithrin ers 2011.

1.3.98 Pan roedd angen prynu tir ychwanegol, roedd y gwaith ymgysylltu wedi cael ei gategoreiddio i ardaloedd gwahanol ac roedd y trafodaethau'n cael eu cynnal gan gwmnïau allanol yn gyffredinol. Mae'r holl swyddogaethau eiddo hyn wedi cael eu gwneud gan adrodd yn uniongyrchol i'r timau eiddo a phrosiect yn Horizon, sydd â chymwysterau proffesiynol ac sy'n brofiadol mewn materion o'r fath.

### *Datganiadau Tir Cyffredin*

1.3.99 Er mwyn i'r Awdurdod Archwilio allu archwilio'r DCO cyn pen y cyfnod o chwe mis a ragnodir, bydd gofyn i Horizon a phartïon amrywiol sydd â diddordeb ymrwymo i Ddatganiadau Tir Cyffredin sy'n nodi'r materion hynny y mae'r partïon hynny'n cytuno arnyn nhw a'r materion lle nad ydy'r partïon yn cytuno, yn ogystal â'r materion hynny sy'n destun trafodaethau parhaus. Diben hyn ydy lleihau nifer y materion y mae angen i'r archwiliad ganolbwyntio arnyn nhw, a fydd yn arwain at ddefnyddio amser yn fwy effeithlon.

1.3.100 Mae Datganiadau Tir Cyffredin yn cael eu paratoi'n wirfoddol rhwng Horizon a phartïon amrywiol ee Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

1.3.101 Ysgrifennodd Horizon at bob parti roedd yn disgwyl y byddai'r Awdurdod Archwilio yn debyg o ofyn am Ddatganiad Tir Cyffredin ganddynt o'r wythnos yn dechrau ar 19 Mehefin 2017 ymlaen, yn cadarnhau sut roedd Horizon yn bwriadu ymgysylltu â nhw.

### *Ymgysylltu ar ddogfennau drafft y cais am DCO*

1.3.102 Yn unol â chanllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio ar wasanaeth cyn ymgeisio ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol[3], rhannodd Horizon rai dogfennau cais drafft â rhai rhanddeiliaid allweddol cyn cyflwyno'r cais. Roedd y partïon roedd Horizon yn credu ei bod hi'n briodol rhannu dogfennau drafft y cais â nhw yn bartïon roedd yn disgwyl i'r Awdurdod Archwilio ofyn iddo baratoi Datganiadau Tir Cyffredin gyda nhw.

1.3.103 Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Horizon a rhai rhanddeiliaid i drafod canfyddiadau a sylwadau allweddol ar y dogfennau drafft. Cafwyd sylwadau eraill yn ysgrifenedig a drwy alwadau ffôn. Roedd hyn yn galluogi Horizon i weithio drwy unrhyw faterion ar ddogfennau drafft y cais cyn cyflwyno'r cais am DCO.

---

[3]https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/2014/05/NSIP-prospectus_May2014.pdf

## 1.4 Beth sy'n digwydd nesaf

### *Ymgysylltu parhaus*

1.4.1 Mae Horizon wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu â'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol ar Brosiect Wylfa Newydd. Ar ôl cyflwyno'r cais am DCO, mae Horizon yn bwriadu parhau i ddatblygu Datganiadau Tir Cyffredin gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn helpu'r Awdurdod Archwilio gyda'r gwaith o archwilio'r cais.

1.4.2 Fel rhan o weithgareddau parhaus Horizon yn y gymuned, bydd cylchlythyrau'n parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gymunedau am hynt y cais yn rheolaidd cyn ac ar ôl y gwaith archwilio. Bydd y llinell gymorth a chyfeiriad e-bost y prosiect yn dal ar waith ar gyfer y rheini sydd eisiau gwybodaeth am y prosiect.

1.4.3 Ar ôl cyflwyno'r cais ac ar ôl iddo gael ei dderbyn i'w archwilio gan yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gweinyddu'r broses o archwilio'r cais a rhoi gwybod i'r partïon sydd â diddordeb am eu cyfleoedd i gymryd rhan.